
Cadw

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Adroddiad Blynyddol Cadw

Ebrill 2023—Mawrth 2024



**Cadw— er lles pawb.**
**For us all, to keep.**




Uchod: Caer Rufeinig Caerllion, Casnewydd.

Delwedd clawr: Castell Rhuddlan, Sir Ddinbych.

cadw.llyw.cymru

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Cyflwyniad | 4 |
| Amgylchedd hanesyddol wedi'i gadw a'i warchod sy'n cefnogi cynaliadwyedd, gweithredu ar newid hinsawdd a bioamrywiaeth | 5 |
| Ehangu mynediad i'r amgylchedd hanesyddol, a mwynhad a dealltwriaeth ohono, i bobl o bob cefndir | 8 |
| Mae'r amgylchedd hanesyddol yn cyfrannu'n gryf at les economaidd Cymru a'i chymunedau | 12 |
| Datblygu ein pobl, ein prosesau a'n partneriaethau i'n galluogi i wireddu ein huchelgeisiau | 15 |
| Atodiad | 17 |



OGL © Hawlfraint y Goron 2025, Llywodraeth Cymru, WG51852, ISBN digidol: 978-1-83715-776-1

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg. This document is also available in English.
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg / We welcome correspondence and telephone calls in Welsh.

# Cyflwyniad



Uchod: Teulu yn ymweld â Chastell Coch, Caerdydd.

**Cenhadaeth graidd Cadw yw 'Gofalu am ein lleoedd hanesyddol, gan ysbrydoli'r genhedlaeth hon a chenedlaethau'r dyfodol'; ein gweledigaeth yw 'Cymru lle mae pawb yn gofalu am ein lleoedd hanesyddol, yn eu deall ac yn eu rhannu'. Mae'r datganiad blynyddol ar gyfer y flwyddyn ariannol Ebrill 2023 i Fawrth 2024 yn dangos rôl Cadw wrth graidd y sector treftadaeth ac yn tynnu sylw at rai o'r prosiectau a'r rhaglenni allweddol sy'n cyflawni'r genhadaeth a'r weledigaeth hon.**

Y tri phrif uchelgais a amlinellir yn y cynllun busnes tair blynedd yw:

- Amgylchedd hanesyddol wedi'i gadw a'i warchod sy'n cefnogi cynaliadwyedd, gweithredu ar newid hinsawdd a bioamrywiaeth.
- Ehangu mynediad i'r amgylchedd hanesyddol, a mwynhad a dealltwriaeth ohono, i bobl o bob cefndir.
- Amgylchedd hanesyddol sy'n cyfrannu'n gryf at les economaidd Cymru a'i chymunedau.

Ac mae un thema alluogi sef:

- Datblygu ein pobl, ein prosesau a'n partneriaethau i'n galluogi i wireddu ein huchelgeisiau.

Mae'r datganiad blynyddol hwn wedi'i drefnu yn ôl y pedair thema hon, gyda chrynodeb byr o'r cyraeddiadau allweddol yn ystod y flwyddyn.

# Amgylchedd hanesyddol wedi'i gadw a'i warchod sy'n cefnogi cynaliadwyedd, gweithredu ar newid hinsawdd a bioamrywiaeth

## Henebion Cadw



**£6,205k**

Gwariant ar brosiectau cadwraeth a buddsoddi a ariennir gan gyfalaf.



**£2,019k**

Gwariant ar reoli cyfleusterau yn safleoedd Cadw.

## Yr amgylchedd hanesyddol ehangach

**£1,846k**

**Cyfanswm gwerth y grantiau refeniw a ddyfarnwyd i 23 o sefydliadau, sy'n cynnwys £1,416k i bedair ymddiriedolaeth archeolegol Cymru i ddarparu gwasanaethau cynghori archeolegol a threftadaeth rhanbarthol hanfodol.**

**135**

O asesiadau cysylltiedig â dynodiadau wedi'u cwblhau (rhestru a chofrestru o'r newydd, dadrestru a dad-gofrestru a diwygiadau eraill i ddynodiadau cyfredol).

**1,692**

Ymgynghoriad ar geisiadau cynllunio.

**223**

Cais am ganiatâd heneb gofrestredig wedi'u hystyried.

**183**

Ymgynghoriad ar esemptiad eglwysig adeiladau rhestredig.

**£3,045k**

**Cyfanswm gwerth y grantiau cyfalaf newydd a glustnodwyd i gefnogi asedau hanesyddol, gan gynnwys:**

- **£2,344k i brosiectau i warchod a chynnal adeiladau hanesyddol, yn cynnwys 17 o grantiau adeiladau hanesyddol newydd a £700k i'r Gronfa Treftadaeth Bensaernïol i gefnogi mwy na 35 o brosiectau drwy grantiau hyfywedd prosiectau, grantiau gwaith cyfalaf, grantiau datblygu prosiectau a rhaglenni'r gronfa effaith ar dreftadaeth.**
- **£561k i gefnogi prosiectau cadwraeth ar gyfer 16 heneb gofrestredig.**
- **£85k i gefnogi 5 grant cynnal a chadw adeiladau hanesyddol.**
- **£55k i gefnogi 3 grant gwaith brys ar adeiladau hanesyddol Awdurdodau Lleol.**

**39**

Adeilad wedi'u hychwanegu at y rhestr statudol o adeiladau o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig. Yn ogystal, 1 adeilad wedi'i uwchraddio, 1 tystysgrif imiwnedd, 61 o ddisgrifiadau rhestru wedi'u diwygio a 15 o adeiladau wedi'u dadrestru.

**4**

Heneb wedi'u hychwanegu at y gofrestr henebion o bwysigrwydd cenedlaethol a 4 diwygiad i'r gofrestr bresennol.

**1**

Gardd wedi'i hychwanegu at y Gofrestr Parciau a Gerddi o Ddiddordeb Hanesyddol Arbennig yng Nghymru.

**442**

Ymgynghoriad arall, gan gynnwys ymatebion i fentrau, strategaethau a dogfennau polisi Llywodraeth Cymru, Awdurdodau Lleol a'r sector cyhoeddus.

**430**

Ymgynghoriad ar geisiadau caniatâd adeilad rhestredig.

# Amgylchedd hanesyddol wedi'i gadw a'i warchod sy'n cefnogi cynaliadwyedd, gweithredu ar newid hinsawdd a bioamrywiaeth


**Derbyniodd Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023 Gydsyniad Brenhinol ar 14 Mehefin 2023. Hon oedd y ddeddfwriaeth gyntaf wedi'i chydgrynhoi yn rhaglen bum mlynedd gychwynnol Llywodraeth Cymru i wella hygyrchedd Cyfraith Cymru.**

Drwy gydol y flwyddyn, aeth Cadwraeth Cymru, sef ein tîm cadwraeth mewnol o seiri a seiri maen, ymlaen â'u rhaglen o waith cadwraeth hanfodol yn henebion Cadw ledled Cymru. Yn ogystal, cyflwynodd Cadw raglen o welliannau bioamrywiaeth yn ein henebion, i gefnogi ymrwymiad Llywodraeth Cymru i frwydro yn erbyn yr argyfwng natur.

Yn gynnar yn 2024, dechreuodd Cadw brosiect cadwraeth 5 mlynedd yn Abaty Tyndyrn, Sir Fynwy. Roedd y gwaith yn cynnwys cael gwared ar lystyfiant a morter caled, smentaidd ac ailbwyntio gyda chymysgedd morter meddal, llawn calch. Cafodd darnau o gerrig wedi'u cerfio oedd wedi dod yn rhydd eu pinio'n ôl a chafodd yr arwynebau cerrig eu brwsio â llaw, i gael gwared ar unrhyw naddion rhydd. Lle'r oedd amodau'r hinsawdd lleol wedi effeithio ar y gwaith maen — blynyddoedd o gurlaw a'r gwahaniaeth cynyddol yn y tymheredd yn ystod cyfnodau o dywydd poeth ac oer — cafodd cerrig newydd eu mewnosod i gadw arwyddocâd yr heneb.







Mae manylion llawn y grantiau refeniw (Tabl 2) a'r grantiau cyfalaf (Tabl 3) a gyflwynwyd yn ystod y flwyddyn wedi'u nodi yn yr atodiad. Mae'r rhain wedi galluogi'r sector amgylchedd hanesyddol ehangach i ddarparu cyngor a gwasanaethau arbenigol ar lefel strategol a gwaith achos.

Top: Y breinlythyr ar gyfer Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023, sy'n dwyn llofnod y Brenin Siarl III.

Canol: Tair ffos wedi'u torri yn Abaty Tyndyrn, Sir Fynwy, fel rhan o werthusiad cyn gwneud gwaith cadwraeth ar eglwys yr abaty.

Gwaelod: Dôl yng Nghastell Ynysgynwraidd, Sir Fynwy, a sefydlwyd i annog bioamrywiaeth.










Mae rhai o'r prosiectau grant cyfalaf a gefnogwyd eleni'n cynnwys gwaith i drwsio Cloc Tref Machynlleth fel bod y tirnod eiconig hwn, sydd mor agos at galonnau'r bobl leol, yn gweithio'n iawn unwaith eto, ac ail-doi eglwys Dewi Sant, Colfa, Powys. Yn ogystal, gwnaed sawl darn o waith cadwraeth ar hyd Clawdd Offa trwy brosiect ar y cyd â Historic England a Chyngor Swydd Amwythig.

Yn ystod 2023–24, fe wnaethom asesu dros 100 o adeiladau hanesyddol a henebion ledled Cymru i ystyried a oeddent yn bodloni'r meini prawf llym i gael gwarchodaeth arbennig fel adeilad rhestredig (Tabl 4) neu heneb gofrestredig (Tabl 5). Mae uchafbwyntiau'r flwyddyn yn cynnwys rhestru Theatr Bypedau Harlequin yn Llandrillo-yn-Rhos, Conwy, a nifer o eglwysi Catholig o ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg a'r ugeinfed ganrif.

Yn dilyn adolygiad o adeiladau pwysig yr ugeinfed ganrif, fe wnaethom hefyd restru Neuadd Dewi Sant yng Nghaerdydd, y bloc llety yng Nghanolfan Awyr Agored Plas Menai yng Ngwynedd, a Phencadlys Cyngor Gwynedd yng Nghaernarfon a adeiladwyd yn 1983.

Top, ar y chwith: Cafodd Theatr Bypedau Harlequin yn Llandrillo-yn-Rhos, Sir Conwy, a adeiladwyd yn 1958, ei rhestru'n Radd II oherwydd ei bod yn enghraifft brin iawn o un o'r theatrau pypedau parhaol, pwrpasol cyntaf yn y DU.

Canol: Cafodd Eglwys Gatholig y Cymun Bendigaid, Caerdydd, ei rhestru'n Radd II er mwyn ei chydnabod fel enghraifft drawiadol o eglwys a adeiladwyd yn fuan ar ôl y rhyfel.

Gwaelod: Rhestrwyd Neuadd Dewi Sant, Caerdydd, yn Radd II am ei diddordeb pensaernïol arbennig fel un o'r neuaddau cyngerdd cyntaf ar raddfa fawr i gael ei hadeiladu y tu allan i Lundain ers dechrau'r 1950au.

Uchod: Cafodd Cloc Tref Machynlleth, Powys, £32,416 o grant cyfalaf ar gyfer gwaith atgyweirio brys i'r gwaith pren, gwaith maen a mecanwaith y cloc.

# Ehangu mynediad i'r amgylchedd hanesyddol, a mwynhad a dealltwriaeth ohono, i bobl o bob cefndir

**1,161,475**

Ymwelwyr â safleoedd Cadw sydd wedi'u staffio.

↑ **i fyny 2% o 1,136,103 yn 2022–23**

**59,402**

Aelodau Cadw.

↑ **i fyny 11% o 57,936 yn 2022–23**

**3,672,187**

Edrychiad ar dudalennau ar wefan Cadw.

**949,677**

Defnyddwyr gwefan Cadw.

**2,741,421**

Sesiynau gwefan Cadw.

**220,000**

O ymwelwyr wedi mynd i 270 o ddigwyddiadau cymunedol a masnachol ar draws safleoedd Cadw.

**39,885**

O ymwelwyr â safle treftadaeth yng Nghymru fel rhan o ŵyl Drysau Agored Cadw, gan gefnogi 727 o ddigwyddiadau mewn 206 o leoliadau.

**3,253**


O ymwelwyr o grwpiau ffoaduriaid a cheiswyr lloches wedi cael mynediad am ddim i safleoedd Cadw fel rhan o gynllun wedi'i dargedu.

# Ehangu mynediad i'r amgylchedd hanesyddol, a mwynhad a dealltwriaeth ohono, i bobl o bob cefndir

**Parhaodd y cynnydd yn nifer yr ymwelwyr â henebion Cadw sydd wedi'u staffio yn dilyn y pandemig, gyda'r ffigurau bellach yn agos at y lefelau cyn y pandemig. Gan ddefnyddio cyfrifwyr ymwelwyr, cofnododd Cadw nifer y bobl sy'n ymweld â henebion heb eu staffio, gan ein galluogi i gael syniad o faint o bobl sy'n mwynhau'r safleoedd hyn ledled Cymru.**

O dan raglen digwyddiadau Cadw cafodd 270 o ddigwyddiadau eu cyflwyno'n llwyddiannus a chroesawyd dros 220,000 o ymwelwyr i fwynhau hanes a threftadaeth Cymru. Ymhlith yr uchafbwyntiau roedd y ffilm cromen drochi 360 gradd 'Shadows from Stones', a deithiodd i gestyll Rhaglan a Biwmares ac a oedd yn archwilio 12 o safleoedd Cadw gan ddefnyddio technoleg arloesol; arddangosfeydd treftadaeth a chelf AGORA yn Nhŷ Turner, Penarth a Galeri Caernarfon, Gwynedd, a'r sioe theatr Gymraeg *Mewn Cymeriad* am Owain Glyndŵr a fu ar daith i 10 o safleoedd Cadw.






Top: Mae ein perfformiadau ail-greu'r oesoedd canol, sy'n addas ar gyfer y teulu i gyd, yn brif atyniad yn ein rhaglen ddigwyddiadau flynyddol.

Canol: Ymwelwyr yn mwynhau'r ffilm cromen drochi 360 gradd, a fu ar daith i gestyll Rhaglan a Biwmares.

Gwaelod: Cofnodwyd nifer y bobl sy'n ymweld â llawer o'n henebion heb eu staffio trwy gydol y flwyddyn gan ddefnyddio cyfrifwyr ymwelwyr. Yn y llun mae Amffitheatr Caerllion, Casnewydd.





Uchod: Roedd *Annwn*, digwyddiad chwyldroadol a oedd yn cyfuno celf golau laser a cherddoriaeth arloesol yng Nghastell Caernarfon, yn un o uchafbwyntiau'r flwyddyn.



Cyflwynwyd pum taith rithiol newydd yn ystod y flwyddyn mewn lleoliadau yn cynnwys Castell Cas-gwent, Llys a Chastell Tre-tŵr a Chastell Cydweli. 2023 hefyd oedd blwyddyn y digwyddiad poblogaidd *Annwn*, sioe seinwedd a thafluniad laser gyda'r artistiaid Chris Levine a Gruff Rhys, a oedd yn dathlu lansiad prosiect cadwraeth newydd Porth y Brenin yng Nghastell Caernarfon.

Croesawodd Drysau Agored, yr ŵyl dreftadaeth fwyaf yng Nghymru, 39,885 o ymwelwyr â 206 o safleoedd treftadaeth Cymru gan gydlynu 727 o ddigwyddiadau drwy gydol mis Medi. Gyda channoedd o leoliadau a miloedd o ymwelwyr, roedd yn llwyddiant mawr.

Chwith: Ym mis Medi agorodd Dolbelydr, tŷ bonedd o'r unfed ganrif ar bymtheg yn Sir Ddinbych, ei ddrysau i'r cyhoedd fel rhan o'r ŵyl Drysau Agored.

Yn 2023–24, darparodd y tîm dehongli gyflwyniad clywedol arloesol llwyddiannus y tu mewn i Lys Tre-tŵr yn ogystal â chynllun dehongli yng Nghastell Cas-gwent, wedi'i anelu at gynulleidfa deuluol. Fe wnaethant hefyd gyfrannu at brosiectau cyfalaf parhaus gan gynnwys Castell Caerffili a Phorth Mawr, gan gyflwyno paneli dehongli newydd ac arwyddion safle ar draws nifer o safleoedd yn ogystal â chynnal a chadw ac adnewyddu asedau dehongli oedd eisoes ar y safleoedd.


Cyrhaeddodd prosiectau dysgu gydol oes restr fer Gwobrau'r Proffesiwn Cyflawni Gweithredol (ODP) a Gwobrau Amgueddfeydd + Treftadaeth am eu gwaith gyda Cheidwaid Ifanc a'r Prosiect Adnoddau Addysg Gwirfoddolwyr, yn y drefn honno. Enillodd y grŵp dawns gwirfoddol o Blas Mawr Wobr Marsh i Gymru, a ddyfernir gan yr Amgueddfa Brydeinig ac Ymddiriedolaeth Elusennol Marsh.


Yn ystod yr haf, cyflwynodd y tîm dysgu gydol oes sesiynau fel rhan o'r rhaglen Bwyd a Hwyl mewn ysgolion ledled Cymru. Mae'r galw am y sesiynau hyn wedi cynyddu flwyddyn ar ôl blwyddyn. Gweithiodd y tîm hefyd gyda Thîm Cymorth Lleiafrifoedd Ethnig ac Ieuenctid Cymru (EYST Cymru) ar ymweliadau â safleoedd a gweithdai i greu podlediadau a cherddi.

Yn olaf, datblygodd y tîm dysgu gydol oes *Deg Diwrnod Diddorol*, sef adnodd Cymraeg ar gyfer dysgwyr Cymraeg yn ne Cymru, i ategu'r adnodd sydd eisoes ar gael yng ngogledd Cymru.














Top: Daeth gwirfoddolwyr ym Mhlas Mawr â'r grefft o ddawnsio Tuduraidd i'r tŷ Elisabethaidd. Enillodd y grŵp dawnsio Wobr Marsh i Gymru yn 2023.

Canol: Cyrhaeddodd y tîm dysgu gydol oes restr fer Gwobrau'r Proffesiwn Cyflawni Gweithredol (ODP) am eu Cynllun Ceidwaid Ifanc yn Abaty Castell-nedd.

Gwaelod: Datblygwyd adnoddau newydd ar gyfer dysgwyr Cymraeg yn ne Cymru, gan fynd â nhw ar daith o amgylch 40 o henebion hanesyddol i wella eu sgiliau iaith.

# Mae'r amgylchedd hanesyddol yn cyfrannu'n gryf at les economaidd Cymru a'i chymunedau

## Gweithgaredd masnachol Cadw

**£10,319k**
Cyfanswm incwm masnachol.

↑ cynnydd o 7% o £9,648k yn 2022–23

## Roedd hyn yn cynnwys:

**£6,469k**
Incwm o dâl mynediad.

**£1,088k**
Incwm aelodaeth.


**£2,421k**
Incwm gwerthiant manwerthu.

**£171k**
Incwm llogi masnachol.

**£170k**
Ystadau a ffynonellau incwm eraill.

# Mae'r amgylchedd hanesyddol yn cyfrannu'n gryf at les economaidd Cymru a'i chymunedau








Top: Daeth ein hymgyrch '1,000 o resymau i ymweld' â 1.161k o ymwelwyr i safleoedd Cadw sydd wedi'u staffio yn 2023–24.

Top, ar y dde: Mae cylchgrawn *Etifeddiaeth y Cymry* Cadw yn un o fuddion allweddol ein cynllun aelodaeth, a welodd dwf trawiadol o 11% yn y flwyddyn adrodd.

**Mae ein hincwm yn cael ei ailfuddsoddi yn y gwaith y mae Cadw'n ei wneud i gefnogi cadwraeth a rheolaeth ein hamgylchedd hanesyddol ac i'w wneud yn fwy hygyrch i'r cyhoedd ei fwynhau.**

Ym mis Ebrill 2023, profodd ymgyrch '1,000 o resymau i ymweld' Cadw yn llwyddiannus iawn ac fe wnaethom groesawu 1,161,475 o ymwelwyr â safleoedd wedi'u staffio drwy gydol y flwyddyn — 2% yn uwch na'r ffigurau ar gyfer 2022–23. Helpodd hyn i gynhyrchu cyfanswm incwm masnachol o £10,319,000, record i Cadw a chynnydd o 7% ar incwm y flwyddyn flaenorol.

Gwelwyd twf trawiadol o 11% mewn niferoedd aelodaeth hefyd, gyda Cadw wedi denu bron i 60,000 o aelodau erbyn diwedd 2023–24.

Parhaodd Cadw i fuddsoddi mewn gwella ein systemau gweithredol i wneud y mwyaf o'n hincwm masnachol. Mae datblygiad parhaus System Rheoli Busnes Cadw i gefnogi'r gwaith o reoli ein gwerthiant tocynnau a gweithgareddau masnachol eraill wedi gwneud y broses o brynu tocynnau yn gyflym ac yn hawdd i'n cwsmeriaid. Mae hefyd wedi ein galluogi i gasglu adborth pwysig trwy arolwg ar ôl ymweliad.

Gwaelod: Mae datblygiad System Rheoli Busnes Cadw wedi gwella'r broses o brynu tocynnau ar gyfer ymwelwyr a cheidwaid fel ei gilydd.

Yn ystod y flwyddyn, dechreuodd y gwaith ar gam 1 prosiect datblygu Castell Caerffili, y disgwylir iddo gael ei gwblhau yn ystod gwanwyn 2025. Bydd y buddsoddiad yn trawsnewid y castell i fod yn atyniad treftadaeth o'r radd flaenaf er budd pobl leol ac ymwelwyr, yn ogystal â bod yn ffocws ar gyfer uchelgeisiau prosiect adfywio Tref Caerffili 2035.

Ar y dde: Argraff arlunydd o'r dull addurno wedi'i ysbrydoli gan gelf canoloesol sydd wedi'i gynllunio ar gyfer y neuadd fawr yng Nghastell Caerffili.

Isod: Fel rhan o brosiect datblygu Castell Caerffili, cafodd llawr carreg y neuadd fawr ei godi er mwyn gosod system wresogi o dan y llawr.





# Datblygu ein pobl, ein prosesau a'n partneriaethau i'n galluogi ni i wireddu ein huchelgeisiau




**Mae Cadw yn parhau i fuddsoddi ar gyfer y dyfodol. Eleni, prynwyd fflyd o 18 fan drydan i sicrhau arbedion hirdymor ac i gefnogi'r trawsnewid i gerbydau di-allyriad.**

Ar ddechrau 2023, gofynnwyd i Roger Lewis arwain grŵp gorchwyl a gorffen i ystyried trefniadau llywodraethu Cadw a darpariaeth ehangach gwasanaethau treftadaeth cyhoeddus ledled Cymru. Cyhoeddwyd yr adroddiad ym mis Rhagfyr 2023 ac roedd yn cynnwys 29 o argymhellion.



Top: Rhoddwyd cerbydau trydan gyda brandio Cadw arnynt i'n tîm cadwraeth mewnol, Cadwraeth Cymru, i deithio i safleoedd ledled Cymru i ymgymryd â'u gwaith.

Uchod: Roger Lewis a Gwilym Hughes, Pennaeth Cadw, yng Nghastell Caernarfon, Gwynedd.



Roedd yn galonogol darllen geiriau rhagarweiniol Roger Lewis, a ddywedodd:

> *'Mae Cadw, heb os, yn sefydliad gwych, sy'n cyflawni'n uchel, sy'n dathlu ac yn atgyfnerthu hunaniaeth Gymreig, wedi'i staffio gan bobl ryfeddol, ac yn haeddiannol mae'n rhywbeth i ni i gyd ei drysori a bod yn falch ohono.'*

Mae'r adolygiad yn nodi nifer o argymhellion a fydd yn gwella perfformiad Cadw. Mae'r argymhellion yn amrywio o ran cwmpas ac yn cynnwys sawl un sydd â'r bwriad o helpu i egluro rôl Bwrdd Cadw a sut y gellid addasu gweithdrefnau'r llywodraeth i ganiatáu i Cadw weithredu'n fwy effeithiol.

Mae sawl argymhelliad yn gwneud awgrymiadau ar atgyfnerthu'r modd y mae Cadw'n gweithio gyda'i bartneriaid, ac mae eraill yn ystyried sut y gellid gwella rhai o weithgareddau eang Cadw i gynorthwyo â'i bwrpas craidd.



Top: Roedd adroddiad Roger Lewis, *Adolygiad o Drefniadau Llywodraethu Presennol Cadw*, a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2023, yn cynnwys argymhellion am rôl Bwrdd Cadw, sydd i'w gweld yn y llun yma.

Gwaelod: Ceidwad yn Llys a Chastell Tre-tŵr, Powys, yn rhoi taith dywys i ymwelwyr. Ymwelodd Roger Lewis â nifer o safleoedd Cadw a siaradodd â staff Cadw fel rhan o'i adolygiad.

# Atodiad

## Tabl 1
Crynodeb ariannol ar gyfer 1 Ebrill 2023 i 31 Mawrth 2024

| Incwm Refeniw | Swm |
|---|---|
| Incwm Masnachol | £10,319,000 |
| Cyllid Llywodraeth Cymru | £9,861,000 |
| **Cyfanswm** | **£20,180,000** |

| Gwariant Refeniw | Swm |
|---|---|
| Cyflogau | £11,076,000 |
| Gwariant Rhaglenni | £9,104,000 |
| **Cyfanswm** | **£20,180,000** |

| Incwm Cyfalaf | Swm |
|---|---|
| Cyllid Llywodraeth Cymru | £10,000,000 |
| **Cyfanswm** | **£10,000,000** |

| Gwariant Cyfalaf | Swm |
|---|---|
| Eiddo mewn gofal | £6,205,000 |
| Grantiau cyfalaf (talwyd) | £2,692,000 |
| Dehongli | £323,000 |
| Gwasanaethau i ymwelwyr | £82,000 |
| **Cyfanswm** | **£9,302,000** |

## Tabl 2
Grantiau Refeniw Cadw 2023–24

| Prosiect | Disgrifiad | Swm |
|---|---|---|
| **Grantiau Refeniw yr Amgylchedd Hanesyddol a Ddyfarnwyd** | | |
| **Grantiau dros £10,000** | | |
| Ymddiriedolaeth Genedlaethol Eglwysi | Ailsefydlu'r fforwm mannau addoli hanesyddol, ymgynghori a dod â phobl at ei gilydd i greu strwythur a strategaeth wedi'u hadnewyddu ar gyfer y fforwm, ac i drefnu a rheoli cyfres o gyfarfodydd rheolaidd. | £10,000.00 |
| Rhwydwaith yr Ymddiriedolaeth Treftadaeth | Cyfrannu at waith y Rhwydwaith i hyrwyddo a chefnogi ymddiriedolaethau treftadaeth a sefydliadau cymunedol eraill sy'n ymwneud yn uniongyrchol â chadwraeth, adfer ac ailddefnyddio asedau treftadaeth. | £10,814.00 |
| Cyngor Archeoleg Prydain (CBA) | Cyfrannu at waith y CBA i gefnogi diogelu'r amgylchedd hanesyddol ac annog cyfranogiad ac ymgysylltiad â threftadaeth; a chyfrannu at y prosiect ymchwil Arolwg Anghenion y Cyhoedd a Defnyddwyr 2 (PUNS2) yng Nghymru. | £21,404.00 |
| Ymddiriedolaeth Adeiladau Crefyddol Cymru | Cefnogi gwaith y sefydliad o ofalu am gapeli anghydffurfiol o bwysigrwydd hanesyddol nad ydynt bellach yn cael eu defnyddio. | £77,322.00 |
| Cyfeillion Eglwysi Di-gyfaill | Cefnogi gwaith Cyfeillion Eglwysi Di-gyfaill o ofalu am eglwysi yng Nghymru nad ydynt bellach yn cael eu defnyddio. | £93,877.00 |
| Ymddiriedolaeth Archeolegol Gwynedd<br>Ymddiriedolaeth Archeolegol Morgannwg-Gwent<br>Ymddiriedolaeth Archeolegol Dyfed<br>Ymddiriedolaeth Archeolegol Clwyd-Powys | Cadw a gwarchod amgylchedd hanesyddol Cymru gan gynnwys:<br>• Cofnodion, arolygon, asesiadau, cloddiadau a briffiau gwylio archeolegol sy'n gysylltiedig â bygythiad.<br>• Nodi asedau hanesyddol o bwysigrwydd cenedlaethol.<br>• Cynnal a rheoli'r Cofnod Amgylchedd Hanesyddol rhanbarthol (HER).<br>• Cefnogi rheolaeth gynaliadwy ar amgylchedd hanesyddol Cymru drwy ddarparu cyngor cynllunio a rheoli curadurol ar sail ranbarthol.<br>• Hyrwyddo dealltwriaeth a gwerthfawrogiad y cyhoedd o dreftadaeth Cymru. | £1,415,900.84 |
| Amgueddfa'r Ffiwsilwyr Brenhinol Cymreig | Cefnogi'r gwaith o reoli a gweinyddu'r amgueddfa fel Amgueddfa Achrededig sy'n agored i'r cyhoedd er mwyn:<br>• Sicrhau lefel briodol o ofal a rheolaeth ar arteffactau ac eitemau eraill sy'n ffurfio casgliadau craidd yr amgueddfa i'r safonau sy'n ofynnol gan y Cynllun Achredu.<br>• Darparu dysgu gydol oes a gwasanaethau ymgysylltu ac addysgu cyhoeddus eraill. | £99,750.00 |
| Cyngor Gwynedd | Cydlynydd Treftadaeth y Byd Gogledd-orllewin Cymru. | £19,974.00 |
| Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri | Cefnogi Prosiect Tirwedd Fyw y Carneddau. | £20,000.00 |
| Swyddog Cadwraeth Clawdd Offa | Swydd Swyddog Prosiect i gyflawni rhaglen waith o dan Gynllun Rheoli Cadwraeth Clawdd Offa mewn partneriaeth â Cadw, Historic England a Chymdeithas Clawdd Offa. | £29,187.78 |
| **Grantiau o dan £10,000 (10 grant)** | | **£48,218.47** |
| **Cyfanswm Grantiau Refeniw 2023–24** | | **£1,846,448.09** |

**Tabl 3**
## Grantiau Cyfalaf Cadw 2023–24

| Prosiect | Disgrifiad | Swm |
|---|---|---|
| **Grantiau Cyfalaf Henebion a Ddyfarnwyd** | | |
| **Grantiau Henebion dros £10,000** | | |
| Castell Trefadog, Ynys Môn | Gwaith rheoli heneb mewn perygl. | £10,813.60 |
| Castell Llangybi, Sir Fynwy | Clirio llystyfiant ac arolwg strwythurol. | £36,196.20 |
| Castell Rhiw'r Perrai, Caerffili | Cofnodi adeilad ac arolwg strwythurol. | £37,794.87 |
| Prosiect Datblygu Abaty Castell-nedd, Castell-nedd Port Talbot | Ffioedd dylunio ar gyfer cynllun parcio ceir yn Abaty Castell-nedd. | £50,000.00 |
| Gwaith Haearn Clydach, Llanelli, Sir Fynwy | Gwaith Haearn Clydach (gweddillion) a Phont Smart — gwaith cadwraeth cam dau. | £50,000.00 |
| Castell Llan-faes, Llan-faes, Bro Morgannwg | Tynnu llystyfiant ac atgyfnerthu gwaith cerrig — cam dau. Gwaith brys oherwydd difrod a achoswyd gan Storm Elin. | £178,544.46 |
| Gwaith Haearn Brymbo, Brymbo, Wrecsam | Cadwraeth wal lwytho, atgyfnerthu a thrwsio. | £159,563.86 |
| **Grantiau Henebion o dan £10,000 (9 grant)** | | **£37,974.22** |
| **Cyfanswm Grantiau Henebion 2023–24** | | **£560,887.21** |

| Prosiect | Disgrifiad | Swm |
|---|---|---|
| **Grantiau Cynnal a Chadw Adeiladau Hanesyddol a Ddyfarnwyd** | | |
| **Grantiau Cynnal a Chadw Adeiladau Hanesyddol dros £10,000** | | |
| Eglwys Sant Peris, Gwynedd | Trwsio gwaith maen, ffenestri a thoeau. | £17,466.00 |
| Sefydliad y Glowyr Llanhiledd,Blaenau Gwent | Addurno mewnol a thrwsio grisiau allanol, drws a ffenestri. | £25,000.00 |
| Cofeb Ryfel Rhuthun, Sir Ddinbych | Gwaith glanhau ac atgyweirio'r gofeb a'r waliau, a thrwsio'r rheiliau. | £25,000.00 |
| Eglwys Sant Chad, Holt, Wrecsam | Gwaith i drwsio'r ffenestr ddwyreiniol. | £13,827.00 |
| **Grantiau Cynnal a Chadw Adeiladau Hanesyddol o dan £10,000 (1 grant)** | | **£3,743.00** |
| **Cyfanswm Grantiau Cynnal a Chadw Adeiladau Hanesyddol 2023–24** | | **£85,036.00** |

## Tabl 3 (parhad)
Grantiau Cyfalaf Cadw 2023–24

| Prosiect | Disgrifiad | Swm |
|---|---|---|
| **Grantiau Cyfalaf Adeiladau Hanesyddol a Ddyfarnwyd** | | |
| **Grantiau Cyfalaf Adeiladau Hanesyddol dros £10,000** | | |
| Cronfa Treftadaeth Bensaernïol | Cronfeydd a ddosbarthwyd gan y Gronfa Treftadaeth Bensaernïol i gefnogi dros 35 o brosiectau ar wahân drwy grantiau hyfywedd a datblygu prosiectau a'r Gronfa Effaith Treftadaeth. | £700,000.00 |
| Castell Cyfarthfa, Merthyr Tudful | Rhagor o waith brys i fynd i'r afael â dŵr yn mynd i mewn i'r strwythur rhestredig Gradd I. | £58,712.44 |
| Menter Treftadaeth Treflun Dolgellau (THI), Tŷ Newyddion, Gwynedd | Gwaith adnewyddu i Dŷ Newyddion, Heol y Bont, Dolgellau (cyn siop bapur Wilkins). | £40,000.00 |
| Tŷ Hendrefoelan, Abertawe | Penodi tîm amlddisgyblaeth i gynhyrchu astudiaeth dichonoldeb yn archwilio'r gwaith atgyweirio uniongyrchol yn sgil tân, opsiynau ailddefnyddio hirdymor a chyfleoedd ariannu. | £50,000.00 |
| Castell Margam, Castell-nedd Port Talbot | Cadwraeth y Prif Dŵr/Tŵr Gwnïo. Mae'r gwaith yn cynnwys atgyweirio ffenestri cerrig, ailosod linteli cerrig, atgyweirio ac ailosod rhwyllwaith addurnol, gwaith plwm ac ailbwyntio, ynghyd ag atgyweiriadau ategol i gynnal rhannau o'r to. | £300,000.00 |
| Eglwys Sant Iago, Devauden, Sir Fynwy | Gwaith to ac atgyweiriadau mewnol ac allanol. | £20,259.00 |
| Eglwys Betws Newydd, Sir Fynwy | Gwaith to ac archwiliadau. | £92,129.00 |
| Capel Bedyddwyr Bryn Seion, Rhondda Cynon Taf | Gwaith mewnol ac adroddiadau strwythurol. | £64,566.00 |
| Capel Carmel, Gwynedd | Gwaith mewnol ac allanol i'r Capel a'r Tŷ Capel. | £66,046.00 |
| Hen Eglwys Sant Luc, Abertawe | Atgyweiriadau i do'r tŵr a'r gwaith cerrig. Gwaith ar y Neuadd Genhadaeth, gan gynnwys atgyweirio'r gwter cafn, atgyweirio parapet talcen cerrig, ailbwyntio a gwaith plwm. | £40,750.00 |
| Cloc Tref Machynlleth, Powys | Gwaith atgyweirio strwythurol brys i'r gwaith pren, mecanwaith y cloc, y gwaith maen a'r pwyntio. | £32,416.00 |
| Melin Maenofferen, Gwynedd | Ar gyfer atgyweiriadau brys i'r to a chynhalion strwythurol. | £229,311.00 |
| Plas Alltran, Caergybi, Ynys Môn | Atgyweiriadau strwythurol i risiau, simneiau, to, ffenestri ac atgyweiriadau mewnol. | £121,565.30 |
| Eglwys Sant Illtud, Merthyr Tudful | Gwaith ar orchuddion to, nwyddau dŵr glaw a chafnau to. | £200,000.00 |
| Eglwys Sant Lawrence, Dinbych-y-pysgod, Sir Benfro | Gwaith trwsio toeau, nwyddau dŵr glaw ac atgyweiriadau gwaith cerrig allanol lefel uchel. | £212,932.00 |
| Sant Mihangel a'r Holl Angylion, Machen, Casnewydd | Gwaith ar y tŵr a pharapet ac ailosod gwteri. | £60,000.00 |
| Capel y Tabernacl, Abertawe | Gwaith ymchwilio ac arolygu. | £12,065.00 |
| Eglwys Dewi Sant, Powys | Gwaith ar y to, ailosod cynaliadau plwm, seliau plwm, gwaith haearn bwrw, atal lleithder a gwaith draenio. | £43,286.97 |
| **Cyfanswm Grantiau Cyfalaf Adeiladau Hanesyddol 2023–24** | | **£2,344,038.71** |

## Tabl 3 (parhad)
Grantiau Cyfalaf Cadw 2023–24

| Prosiect | Disgrifiad | Swm |
|---|---|---|
| **Grantiau Gwaith Brys ar Adeiladau Hanesyddol Awdurdodau Lleol a Ddyfarnwyd** | | |
| **Grantiau Gwaith Brys ar Adeiladau Hanesyddol Awdurdodau Lleol dros £10,000** | | |
| Eglwys Dewi Sant, Sir Ddinbych | Cynorthwyo gyda chostau gwneud gwaith brys yn ddiofyn o dan delerau Hysbysiad Gwaith Brys, dyddiedig 10 Mehefin 2021, i Eglwys Dewi Sant, Dinbych. | £50,000.00 |
| **Grantiau Gwaith Brys ar Adeiladau Hanesyddol Awdurdodau Lleol dan £10,000 (2 grant)** | | **£5,360.00** |
| **Cyfanswm Grantiau Gwaith Brys ar Adeiladau Hanesyddol Awdurdodau Lleol 2023–24** | | **£55,360.00** |
| **Cyfanswm Grantiau Cyfalaf 2023–24** | | **£3,045,321.92** |

## Tabl 4
Dynodiadau newydd: Adeiladau rhestredig

| Rhif Cyfeirnod | Enw | Awdurdod Unedol | Gradd |
|---|---|---|---|
| 87911 | Plas Menai, Y Felinheli, Caernarfon | Gwynedd | II* |
| 87912 | Bloc llety Plas Menai, Y Felinheli, Caernarfon | Gwynedd | II |
| 87913 | Graigfryn, Snead, Yr Ystog, Trefaldwyn | Powys | II |
| 87914 | Neuadd Dewi Sant, Caerdydd | Caerdydd | II |
| 87886 | Eglwys Gatholig Sant Joseff, Gorllewin Aberdâr, Aberdâr | Rhondda Cynon Taf | II |
| 87895 | Tŷ'r Offeiriad, Eglwys Gatholig Sant Joseff, Gorllewin Aberdâr, Aberdâr | Rhondda Cynon Taf | II |
| 87887 | Eglwys Gatholig Sant Joseff, Gabalfa | Caerdydd | II |
| 87888 | Eglwys Gatholig y Cymun Bendigaid, Tredelerch | Caerdydd | II |
| 87889 | Eglwys Gatholig y Forwyn Fair a Sant Padrig, Maesteg | Pen-y-bont ar Ogwr | II |
| 87890 | Tŷ'r Offeiriad yn Eglwys Gatholig Sant Alban, Pont-y-moel, Pont-y-pŵl | Torfaen | II |
| 87891 | Waliau ac ati yn Eglwys Gatholig Sant Alban, Pont-y-moel, Pont-y-pŵl | Torfaen | II |
| 87915 | Yr Ogof, Yr Ystog, Trefaldwyn | Powys | II |
| 87894 | Bwthyn yr Eglwys, Molygrove, Nanhyfer | Sir Benfro | II |
| 87919 | Theatr Bypedau Harlequin, Llandrillo-yn-Rhos | Conwy | II |
| 87826 | Maesglas, Soar y Mynydd, Llanddewi Brefi, Tregaron | Ceredigion | II |
| 87916 | Pafiliynau ym Mharc Cold Knap a'r grisiau cyfagos, Y Barri | Bro Morgannwg | II |
| 87917 | Gorsaf Reilffordd Ynys y Barri, Y Barri | Bro Morgannwg | II |
| 87925 | Cafn Ceffylau yng Nghoedwig Coldwell, Ystangbwll | Sir Benfro | II |
| 87923 | South Lodge i Windsor Gardens, Penarth | Bro Morgannwg | II |
| 87851 | Pwmp codi dŵr ger Pentre-Uchaf, Bryncrug | Gwynedd | II |
| 87926 | Croes Rhyddid ym Mhentref Pwylaidd Penrhos, Llanbedrog | Gwynedd | II |
| 87920 | Pencadlys Gwynedd, Caernarfon | Gwynedd | II |
| 87921 | Swyddfeydd Addysg ym Mhencadlys Gwynedd, Caernarfon | Gwynedd | II |
| 87922 | Cofeb Llywelyn ym Mhencadlys Gwynedd, Caernarfon | Gwynedd | II |
| 87929 | Carreg filltir Telford (1 filltir i Mona), Caergybi | Ynys Môn | II |
| 87930 | Carreg filltir Telford (7 milltir i Mona), Bodedern | Ynys Môn | II |
| 87931 | Carreg filltir Telford (12 milltir i Mona), Bodffordd | Ynys Môn | II |
| 87932 | Carreg filltir Telford (16 milltir i Mona), Llanfihangel Ysgeifiog | Ynys Môn | II |
| 87933 | Carreg Filltir Telford (19 milltir i Mona), Penmynydd | Ynys Môn | II |
| 87927 | Cerflun o Robert Owen yng Ngardd Goffa Robert Owen, Y Drenewydd | Powys | II |
| 87928 | Wal Ffin Gardd Goffa Robert Owen gyda Phanel Cerfwedd Isel, Y Drenewydd | Powys | II |
| 87934 | Bwthyn Pound Fields, Ffordun | Powys | II |
| 87870 | Teras ar Stryd y Baddon, Aberystwyth | Ceredigion | II |
| 87869 | 1-5 Cambridge Terrace, Aberystwyth | Ceredigion | II |
| 87937 | Ysgol Feithrin Steiner Nant-y-Cwm, Maenclochog, Clunderwen | Sir Benfro | II |
| 87872 | Hen Fynachlog/Tŷ Clerigwyr yn Eglwys Gatholig y Santes Fair, Caerfyrddin | Sir Gaerfyrddin | II |
| 87875 | Eglwys Gatholig Sant Benedict, Uplands, Abertawe | Abertawe | II |
| 87876 | Eglwys Gatholig y Santes Fair, Doc Penfro | Sir Benfro | II |
| 87846 | Erskine Lodge, Bae Colwyn | Conwy | II |

## Tabl 5
Dynodiadau newydd: Henebion cofrestredig

| Rhif Cyfeirnod | Enw | Awdurdod Unedol |
|---|---|---|
| CN419 | Chwarel Lechi a Thomenni Llechi Pen y Bryn, Llanllyfni | Gwynedd |
| GM637 | Celf Craig Cynhanesyddol yn Nhai'r Waun Isaf, Nelson | Caerffili |
| BR431 | Caer Rufeinig Cefn-Brynich, Aberhonddu | Powys |
| GM638 | Safle Balŵn Amddiffyn yr Ail Ryfel Byd Tir-Gwyllt, Bôn-y-maen | Abertawe |